**Russell George AS - Ymweliad Ymchwil Iechyd, Helsinki, Mawrth 2024**

**Diben yr ymweliad**

Roedd yr ymweliad yn gyfle i ddysgu mwy am system gofal iechyd y Ffindir a'r materion y mae'r Ffindir yn eu hwynebu, sut y mae'n ymgodymu â'r materion hyn, ac a oes unrhyw beth y gall Cymru ei ddysgu o unrhyw lwyddiannau. Hefyd, fe euthum i ddysgu mwy am fentrau a thechnolegau ym maes gofal iechyd yn y Ffindir, ac i ddysgu mwy am strwythur ei Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sut y mae'n gweithio. Ar ben hynny, cyfarfûm â gwleidyddion o wledydd eraill i drafod partneriaethau ar y cyd a phwysigrwydd eu perthynas â Chymru.

**Digwyddiad Rhwydweithio Gwleidyddol**

Cyfarfûm ag arweinwyr gwleidyddol o wledydd eraill Llychlyn, gan gynnwys meddyg teulu o Sweden – trafodwyd materion sy'n wynebu Sweden o ran gofal iechyd, a recriwtio a chadw.

**Pwyllgor Iechyd y Ffindir**

Cyfarfûm â Mia Laiho AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Senedd y Ffindir, ac ag aelodau eraill o'r pwyllgor. Gwnaethom drafod ystod eang o bynciau, gan gynnwys sut mae'r pwyllgor hwnnw'n gweithio a'r gwaith sydd ganddo ar y gweill ar hyn o bryd. Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Ffindir yn cyfarfod bron bob dydd pan fydd y Senedd yn eistedd. Ar hyn o bryd, mae'n craffu ar y model Gofal Iechyd newydd, sef newid mawr i'r system gofal iechyd cyhoeddus a ddaeth i rym yn 2023. Erbyn hyn, mae gan y Ffindir 22 o 'gynghorau sir gwasanaethau llesiant' newydd. Y nod yw i'r cynghorau hyn drefnu'r gwasanaethau gofal iechyd a llesiant yn eu hardaloedd nhw. Yn ogystal, trafodais waith Pwyllgor Iechyd a Chymdeithasol y Senedd a'n blaenraglen waith ni.

Roedd yr ymweliad hwn hefyd yn cynnwys taith o amgylch Senedd y Ffindir. Roedd cyfle i wylio'r Cyfarfod Llawn a chwrdd ag Aelodau eraill o Senedd y Ffindir.

**iCan** (Rhaglen Ymchwil Flaenllaw'r Ffindir gyda'r nod o ddatrys her canser trwy arloesedd a darganfyddiadau sydd ar flaen y gad.)

Ymwelais â Biomedicum Helsinki a chwrddais â thîm iCAN. Cyfarfûm hefyd â Mirjami Tran Minh, Uwch-swyddog Cynllunio yn FICAN, Canolfan Ganser y Ffindir. Gwnaethom drafod rhaglen ymchwil canser flaenllaw'r Ffindir a chefais gyflwyniad ar y diweddaraf o'r gwaith strategaeth canser sy'n mynd rhagddo yn y Ffindir ar hyn o bryd. iCan yw rhaglen ymchwil flaenllaw'r Ffindir gyda'r nod o ddatrys her canser trwy arloesedd a darganfyddiadau sydd ar flaen y gad. Cefais gyfle i weld technoleg newydd ym maes deallusrwydd artiffisial a roboteg ar waith a chefais arddangosiad gan y tîm ymchwil meddygol.

**Digwyddiad Seneddol – Cymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon**

Cyfarfûm â seneddwyr o Iwerddon, Prydain a Gogledd Iwerddon i drafod cysylltiadau dwyochrog ac i rannu arfer gorau ynghylch materion y mae ein gwledydd yn eu hwynebu. Cyfarfûm â Phwyllgor Materion Ewropeaidd y Gymdeithas i drafod cydweithredu ym maes diogelwch yn y dyfodol rhwng y DU ac Iwerddon mewn cyd-destun geowleidyddol sy'n newid yn barhaus a chyfeiriad polisi diogelwch yr UE yn y

dyfodol, gan gynnwys gweithredu'r Agenda Ewropeaidd ar Ddiogelwch, a goblygiadau'r rhain datblygiadau ar gyfer cydweithredu ar ddiogelwch yn y dyfodol rhwng y DU ac Iwerddon.

**Cynghorwyr Meddygol i'r Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol ac Iechyd:** Taina Mäntyranta (Prif Gynghorwr Meddygol) a Hanna Tonlen (Cyfarwyddwr Rhaglen, Athro Atodol). Cyfarfuom yn Sefydliad Iechyd a Lles y Ffindir yn Helsinki.

Cyfarfûm â Taina Mäntyranta, sy'n gweithio i'r Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol ac Iechyd. Yn ogystal, cyfarfûm â Hanna Tonlen, sydd hefyd yn was sifil yn y weinyddiaeth. Gwnaethom drafod yr heriau cyfredol sy'n wynebu gofal iechyd yn y Ffindir ac iechyd y genedl, gan gynnwys gordewdra a phrinder staff. Cefais gyflwyniad ar y Rhaglen Gwaith Da a lansiwyd gan Lywodraeth y Ffindir yn 2023 i sicrhau digonolrwydd ac argaeledd personél ym meysydd gofal iechyd a lles cymdeithasol ac yn y gwasanaethau achub. Dywedwyd wrthyf fod y mesurau mwyaf effeithiol ar gyfer gwelliant yn gysylltiedig â gwella gweithrediad y system gwasanaethau gofal iechyd a lles cymdeithasol drwy gyflwyno'r gwasanaethau fesul cam a thrwy ymateb yn briodol i'r anghenion o ran personél sy'n ymwneud â'r gwasanaethau. Ar yr un pryd, mae atal, gwasanaethau digidol, cydlynu gwasanaethau a phosibiliadau ar gyfer hunanreoli iechyd yn cael eu targedu ar gyfer eu cryfhau.

**Cyfarfod â Merja Laine, Athro ym maes Meddygaeth ym Mhrifysgol Helsinki a meddyg teulu cofrestredig.**

Cyfarfûm â Merja Laine, sy'n feddyg teulu ac yn ddarlithydd ym maes gofal sylfaenol ym Mhrifysgol Helsinki. Gwnaethom drafod y trosolwg cyffredinol o ddull a model y Ffindir ar gyfer rheoli clefydau cardiofasgwlaidd. Yn ogystal, dysgais am y ffordd y mae myfyrwyr meddygol yn paratoi i bontio o'r brifysgol i'r gwasanaeth iechyd. Hefyd, gwnaethom drafod yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru o ran opsiynau triniaeth, amseroedd aros a systemau rhyddhau a sut mae'r rhain yn cymharu â rhai'r Ffindir. Gwnaethom rannu nodiadau ar ein systemau iechyd a gofynnais pa atebion sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer gofal sylfaenol yn y Ffindir gyda golwg ar fabwysiadu arfer clinigol da yng Nghymru, y DU.